# y dinesydd

Mehefin 1997 | PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH | Rhif 228


## URDD GOBAITH CYMRU

1922 - 1997

# JAMBORI GENEDLAETHOL



Bwriedir cynnal Jambori Genedlaethol ddydd Gwener, 27 Mehefin 1997. Gwahoddir ysgolion cynradd Cymru i ymuno â'i gilydd yn y Jambori fel y prif ddigwyddiad i ddathlu 75 mlynedd ers cychwyn yr Urdd yn 1922. Anelir at blant cynradd blwyddyn 4, 5 a 6 a disgwylir oddeutu 15,000.

**27 Mehefin 1997**

Trefnir gorymdaith trwy'r brifddinas gyda baneri, perfformwyr, arddangosfeydd ar y dŵr ac yn yr awyr, cyn i bawb ymgynnull am y sesiwn ganu fwyaf erioed. Bydd sgrîn fideo anferth yn sicrhau profiad gwefreiddiol i bob plentyn.

Hyd yr orymdaith yw 1.5 milltir a chymer tua 40 munud i'w cherdded.

Mae croeso mawr i bawb ddod i gefnogi'r plant. Edrychwn ymlaen at eich cwmni yn y Jambori gyffrous, hanesyddol hon!



# Cyfrol Gampus Gwyneth Lewis

Ar 21 Mai cyflwynwyd gwobrau cystadleuaeth Llyfr y Flwyddyn Cyngor Celfyddydau Cymru mewn seremoni arbennig ym Mae Caerdydd. Da oedd gweld fod cyfrol ddiweddar Gwyneth Lewis, *Cyfrif Un ac Un yn Dri,* yn un o'r tri llyfr Cymraeg i gyrraedd y rhestr fer, ac iddi dderbyn £1000 yn wobr.

Mae clawr y gyfrol hardd hon yn cynnwys llun trawiadol o ryw Fargaret Ann yn cael ei bedyddio mewn bedydd awyr-agored gan y Bedyddwyr yn Llanbadarn yn 1843.

Does dim angen atgoffa darllenwyr *Y Dinesydd* i Gwyneth Lewis ddod yn agos at y brig yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Colwyn a bod llawer ohonom yn teimlo y bydd ryw ddydd yn cael ei choroni am ei gwaith aeddfed a synhwyrus. Cofiwn am gerddi Gwyneth yn rheolaidd yng nghylchgrawn Ysgol Rhydfelen, ac mae wedi dod i'r brig yn eisteddfodau cenedlaethol yr Urdd. Ers y dyddiau hynny, mae wedi naddu cryn dipyn ar ei hawen, gan ddefnyddio ychydig o eiriau i gyfleu llawer a gyrru iasau trwom wrth ddarllen a myfyrio uwch ei delweddau. Mae geiriau cyntaf cerdd llun y clawr yn enghraifft dda o hynny:

"Llifai'r Iorddonen
trwy ganol Llanbadarn
y dydd y bedyddiwyd
Margaret Ann."

Afon Rheidol sy'n llifo trwy Lanbadarn, lle y bu Dafydd ap Gwilym yn addoli. Enw digon cyffredin yw Margaret Ann, a chawn fraslun dychmygus o'i bywyd wrth i'r gerdd dyfu, ond fe wyddom am arwyddocâd bedydd a phechod ac am y bedydd arall hwnnw yn yr Iorddonen.

Mae'r enghraifft fer yna'n ddigon i ddangos fel y mae awen y bardd yn cwmpasu llawer mewn ychydig ac yn ein gorfodi i droi at ein gwybodaeth, ein profiadau a'n teimladau wrth ddilyn llif ei geiriau. Cyfrol sy'n haeddu myfyrio hir uwch ei phen ac yn werth ei phrynu.

# Y Dinesydd

**Mehefin 1997, Rhif 228.** **ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Gorff/Awst at un o'r gohebwyr canlynol erbyn 17 Mehefin:**

**Newyddion o'r Eglwysi:** Y Parchedig Gwilym Dafydd, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 626811).
**Newyddion Ysgolion Cynradd:** Mr B. D. Harries, 6 Lakeside, Caerdydd (Ffôn: 756562).
**Newyddion Ysgol Glantaf:** Mrs S.E. Williams, 23 Kelvin Road, Y Rhath, Caerdydd (Ffôn:490687).
**Newyddion Chwaraeon:** Mr Thomas Davies, 41 Highfields, Caerdydd (Ffôn/Ffacs: 564540).
**Gweithgareddau Dysgwyr:** Mr Gareth Kiff, Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, Caerdydd (Ffôn: 486469/755475):
**Newyddion Cyffredinol:** Mr W. J. Jones, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd (Ffôn: 756282; Ffacs: 578106).
**Newyddion y Fro:** Mr Garwyn Davies, 27 Baron Road, Penarth (Ffôn: 708253).

**Anfonwch unrhyw ymholiadau golygyddol at:** Mrs Linda Thomas, 3 Llwynfedw Gardens, Llwynbedw, Caerdydd (Ffôn: 693302).

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:** Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 842929).

## HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae hysbysebion yn hanfodol i gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:
Miss Catrin Rowlands, 42 Carling Court, Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 4PH (Ffôn: 01222 598243).

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Thomas, 37 Velindre Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 521325) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

## FFURFLEN CYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ...........................................................................

Cyfeiriad: .....................................................................

............................................... Côd Post: ...................

Rhif Ffôn: ....................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Thomas, 37 Velindre Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd

## FFURFLEN TANYSGRIFIO

Amgaeaf danysgrifiad blwyddyn o £15 er mwyn derbyn *Y Dinesydd* drwy'r post yn rheolaidd.

Enw: ...........................................................................

Cyfeiriad: .....................................................................


............................................... Côd Post: ...................

Rhif Ffôn: ....................................................................

Dychweler y ffurflen hon i swyddfa Surrexit, 2 Merthyr Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 1DG.

## CROESAIR AP LEWSYN

**Rhif 160** **Mehefin1997**



**AR DRAWS**

7. Unfrydedd ar y pwnc. (8)
9. Ail-glymu edafedd sy'n barod i'w medi. (6)
10. Fe faedd droi a chyffesu. (4)
11. Carodd alaw y cyfansoddwr ystyrlon. (10)
12. Yr enbydrwydd sydd yn dilyn o golli'r we o'r perlewyg. (6)
14. Pentre enwog am ei lechi, ger Llanddeiniolen. (8)
15. Harddwch y tinsyl plethedig. (6)
17. Tatws. (6)
20. Ymlusgiad sydd yn troi atoch ond i chwi ei galw yn Olwen mad. (8)
22. Lluchiwch. (6)
23. 'Yn y byd ... a gewch.' (Ioan xvi) (10)
24. '... yn ymyl y lan'. (4)
25. Gloddesta nes bod gwaeledd bron yn dilyn. (6)
26. Y chweched noson i blaned y cariadon ymddangos. (3,5)

**I LAWR**

1. Byddent yn taflu'n chwyrn. (8)
2. Y fath siâp sydd ar bethau! (4)
3. Mae'r cyfan yn furddun! (6)
4. Yn llawn o awen y prydydd. (8)
5. Tarodd ficer ar drefn newydd pan oedd i ffwrdd. (10)
6. 'Mae ...au'r cread er dy fwyn.' (W. Rhys Nicholas) (6)
8. Digwydd hon ar faes y gad. (6)
13. Y perthnasau sy'n medru gwneud rhyfeddodau yng ngolwg y plant. (1,6,3)
16. Taclau unllygeidiog ... ond eto'n ddefnyddiol. (8)
18. Golwg ffresni. (8)
19. Y maint yn rhannu'r fainc. (6)
21. Gwnewch hyn â chyfarfod, â thrafodaeth, ac â photel. (6)
22. Ymwelydd teithiol. (6)
24. Sŵn anifail. (4)

**Cystadleuaeth Rhif 159**
Daeth deg ymgais i law, pedair ohonynt â rhyw fân wall, a'r gweddill yn hollol gywir. Yr ymgais a ddaeth o'r het oedd eiddo'r Parch Maxwell Evans, Penarth, ac mae'r tocyn llyfrau eisoes ar ei ffordd iddo. Daeth y pum ymgais gywir ond anffortunus oddi wrth E. Haydn Jones, Rhiwbina; Gwenda Hopkins, Llanisien; Marged Davies, Llandaf; Buddug Roberts, Yr Eglwys Newydd; a Margaret Jones, Rhiwbina.

**Cystadleuaeth Rhif 160**
Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair i'w hanfon at: Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed erbyn 20 Mehefin os gwelwch yn dda.

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyngor y Celfyddydau i'r cyhoeddiad hwn.

## Newid Swyddogion

Bu Mrs Mary Jones a Mr Aled Williams yn gwasanaethu'n ddiwyd am gyfnod hir fel Ysgrifennydd a Thrysorydd Pwyllgor *Y Dinesydd*. Rhoddodd y ddau rybudd yng Nghyfarfod Blynyddol *Y Dinesydd* y llynedd eu bod yn teimlo ei bod yn bryd rhoi'r gorau i'w swyddi. Penodwyd Mrs Julie Jones (28 St Francis Rd., Yr Eglwys Newydd) yn Ysgrifennydd yn y Cyfarfod Blynyddol y llynedd a Mr Rheon Thomas (37 Felindre Rd., Yr Eglwys Newydd) yn Drysorydd yn y Cyfarfod Blynyddol eleni. Nid yw'n briodol ffarwelio â Mary Jones ac Aled Willisms, am fod y ddau yn parhau i weithio dros *Y Dinesydd* fel dosbarthwyr ac aelodau pwyllgor; ond y mae'n briodol ein bod, wrth gwblhau'r newid mawr hwn ymhlith y swyddogion, yn diolch yn gynnes iawn i'r ddau am eu gwaith caled a diflino dros *Y Dinesydd* dros flynyddoedd lawer, a dymuno pob rhwyddineb i Julie Jones a Rheon Thomas yn eu swyddi allweddol.

## Cadair i Gwynfor

Llongyfarchiadau i'r Dr John Gwynfor Jones o Ysgol Hanes ac Archaeoleg Prifysgol Cymru Caerdydd ar gael ei ddyrchafu'n ddiweddar i gadair bersonol yn y Brifysgol. Y mae'r Athro Jones wedi cyhoeddi'n helaeth iawn, yn enwedig ym maes hanes Cymru yn yr 16eg a'r 17eg ganrif. Cyfrannodd yn helaeth iawn hefyd dros y blynyddoedd at hyrwyddo astudio Hanes Cymru trwy gyfrwng y Gymraeg y tu mewn a'r tu allan i furiau'r Brifysgol. Yn ogystal, y mae'n adnabyddus fel un o gynheiliaid bywyd diwylliannol Cymraeg y Brifddinas. Ef, er enghraifft, a ysgrifennodd hanes Cymrodorion Caerdydd. Y mae'n flaenor amlwg yn Eglwys y Crwys. Ef a olygodd gyfrol dathlu canmlwyddiant Eglwys y Crwys yn 1984 ac y mae'n olygydd cylchgrawn misol yr eglwys, *Y Gadwyn*. Y mae'r *Dinesydd* yn dymuno blynyddoedd dedwydd ac esmwyth iddo yn ei gadair newydd!

## Colli John Williams, Y Barri

Daeth tyrfa luosog ynghyd i Eglwys yr Holl Saint, Y Barri'n ddiweddar i dalu'r deyrnged olaf i John Williams, a fu am flynyddoedd yn ddarlithydd yn Adran Ddaearyddiaeth Coleg y Barri. Fe'i ganwyd yn Harrowgate yn fab i gyfreithiwr, ond pan nad oedd ond pedair blwydd oed bu farw ei dad a symudodd y teulu yn ôl i fyw at ewythr iddo a oedd yn ficer yn Sir Aberteifi. Er iddo adael Sir Aberteifi ers rhyw hanner canrif, arhosodd John yn Gardi twymgalon ar hyd ei oes, ac âi yn ôl i fro ei febyd bob cyfle a gâi.

O Ysgol Ramadeg Aberteifi aeth i Brifysgol Caergrawnt. Wedi graddio yno, bu'n rhaid iddo ymuno â'r fyddin. Treuliodd y rhan helaethaf o'i amser yn y dwyrain pell, ac erbyn diwedd y rhyfel yr oedd yn gyfrifol am reoli un o'r gwersylloedd carcharorion-rhyfel yn Borneo. Wedi gadael y fyddin, treuliodd flwyddyn yng Ngholeg y Brifysgol yn Aberystwyth yn ei gymhwyso ei hun ar gyfer gyrfa fel athro, a bu'n athro mewn ysgolion mor amrywiol â Merchant Taylors, Lerpwl ac Ysgol Uwchradd Pwllheli cyn symud i'r Barri. Roedd yn ŵr llawn doniau a diddordebau. Roedd yn Gymro i'r carn ac yn eisteddfodwr brwd. Roedd yn aelod o gôr y Barri, grŵp cerdded yr eglwys ac yn ysgrifennydd Cymdeithas y Cymrodorion. Ar ben hyn roedd yn drefnydd pryd-ar-glud yn yr ardal ac yn gynullydd y dosbarth llenyddol. Mae llawer o raddedigion y Brifysgol Agored yn ddyledus iddo am ei arweiniaid caredig a doeth pan oedd yn diwtor arnynt. Bydd bwlch ar ei ôl yn y Barri, ac estynnwn ein cydymdeimlad i'w weddw, Elizabeth a'r plant a'u teuluoedd.

**DATRYSIAD CROESAIR EBRILL/MAI**



## Calendr y Dinesydd

**Mercher, 18 Mehefin**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd, yn festri Capel Minny Street am 2.00 p.m. Sgwrs gan Valmai Evans.

**Iau, 26 Mehefin**
'Morys y Gwynt ac Ifan y Glaw.' Cynhyrchiad i blant 4-8 oed gan Gwmni Theatr Arad Goch yn arena Theatr Sherman am 10.00 ac 1.00. Tocynnau: 01222-230451.

**Gwener, 27 Mehefin**
Jambori anferth i 10,000 o blant ym Mae Caerdydd i ddathlu 75 mlynedd Urdd Gobaith Cymru, gan gynnwys gorymdaith o Gastell Caerdydd i'r Bae. Manylion pellach: 01970-623744.

**Sadwrn, 28 Mehefin**
Ffair Haf Glantaf 1997 yn Ysgol Uchaf Glantaf. Agoriad - 1.00p.m.

**Llun, 30 Mehefin**
Cymdeithas y Cymod, Cell Caerdydd: Gweithdy gan Menna Elfyn ar drais yn y cartref, yn Eglwys Dewi Sant am 7.00 p.m.

**Mercher, 2 Gorffennaf**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Pleserdaith. Manylion pellach: 01222-495980.

**Llun, 7 Gorffennaf**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Swper Pen Tymor, yn Neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach am 7.30 p.m

**Iau, 10 Gorffennaf**
Clwb Gwawr Caerdydd: 'Ar Feic a Phicnic' yn Fferm y Fforest (neu'r Radyr Arms, os bydd yn bwrw). Manylion gan Manon Wyn Rhys (01222-216503).

**Mercher, 16 Gorffennaf**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd, yn festri Capel Minny Street am 2.00 p.m. Cyfarfod Blynyddol a the mefus.

**26 Gorffennaf-1 Awst**
Cwrs Cymraeg San Dunwyd i ddysgwyr o bob lefel, dan nawdd Adran Addysg Barhaol Prifysgol Cymru Caerdydd. Manylion pellach: Dr Gwen Awbery (01222-874831).

*Os ydych am gynnwys digwyddiadau yn y Calendr, anfonwch y manylion at: E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 2AJ.*

**Cynhelir** aduniad i gyn-ddisgyblion ac athrawon Ysgol Botwnnog yn Neuadd y Cyfnod, Y Bala, fore Iau, 7 Awst, am 11.00 a.m. Manylion pellach: Marion Llewelyn 01824-702604.

## Ennill £3000

Nid pob dydd y mae rhywun yn ennill £3000 ar raglen gwis, ond dyna fu camp Robin Hughes, Creigiau, sy'n athro yn Ysgol Gymraeg Gartholwg, yn ddiweddar. Enw'r rhaglen oedd 'Bob yn Ddau', cwis cysylltu geiriau a gynhyrchwyd gan Gwmni'r Castell ar gyfer S4C. Yn ystod yr un gyfres enillodd dau arall o Gaerdydd - Peter Jones a Keith Davies - tua £1000 yr un. Llongyfarchiadau i'r tri - a chofiwch am goffrau'r *Dinesydd*!!

## Bryn Terfel

Bydd Bryn Terfel yn unawdydd gwadd mewn cyngerdd gan Gerddorfa a Chorws Cleveland yn Neuadd Dewi Sant, nos Fawrth, 1 Gorffennaf am 7.30 p.m.

## Aelod seneddol newydd

Aelod seneddol newydd Canol Croydon yw Geraint Davies a fu'n ddisgybl yn Ysgol Uwchradd Llanisien. Mae ei rieni'n dal i fyw ar y Mynydd Bychan.

**Llongyfarchiadau** i Rhodri a Julie Morgan ar ddathlu deng mlynedd ar hugain o fywyd priodasol a phob dymuniad da i'r ddau, yn ŵr a gwraig yn senedd San Steffan. Braf gweld fod dau aelod seneddol arall Caerdydd, sef Jon Owen Jones ac Alun Michael, yn siarad Cymraeg. Pob dymuniad da iddynt hwythau wrth iddynt ddechrau ar dymor arall yn San Steffan.

## 'Yr Aduniad' yn y Sherman

Rhaid bod y geiriau 'Pob tocyn wedi'i werthu' yn fodd i godi calon unrhyw ddramodydd a dyna fu hanes Delyth Jones, Yr Eglwys Newydd, awdur *Yr Aduniad* a gafodd ei pherfformio'n ddiweddar yn Arena'r Shermam ar ôl bod ar daith lwyddiannus trwy Gymru.

Hon yw drama lwyfan gyntaf Delyth. Ynddi mae'n dwyn pump o ferched a fu'n ddisgyblion ysgol gyda'i gilydd i aduniad llawn llawenydd (i ddechrau) mewn bistro. Wrth i'r noson fynd rhagddi, caiff y merched fynd i berfedd ei gilydd a datgelu'r hyn sy'n llechu o dan yr wyneb, ac mae blinderon bywyd pob un ohonynt, a actiwyd gan Sêra Cracroft, Grug Maria, Carys Llewelyn, Delyth Morgan a Catherine Tregenna, yn graddol godi i'r wyneb i ddangos ystyfnigrwydd poenus, gor-swildod a diffyg hyder, unigrwydd a phryder. Mae unig ddyn y cast, Jonathan Nefydd, dyn y bar a dyn popeth arall, yn eu helpu i actio'u problemau a'u gobeithion yn eu tro gan beri i'r gynulleidfa gydymdeimlo a gwenu, teimlo'n drist a chwerthin yn braf bob yn ail trwy berfformiad oedd yn llawn o emau gwir theatrig. Câi'r ddrama ei chyflwyno gan Gwmni Theatr Gwynedd.

## Beca'n Ben

Da dweud mai un o drigolion Caerdydd, Beca Brown, oedd yr enillydd drwy holl wledydd Prydain yng nghystadleuaeth Newyddiadurwr Ifanc y Flwyddyn yng ngwobrau BT eleni. Dyma'r tro cyntaf i BT gynnig y wobr hon, sydd ar gyfer newyddiadurwyr dan 25 oed. Derbyniodd Beca ei gwobr mewn seremoni yng ngwesty Langland Hilton yn Llundain ddiwedd Mai. Mae Beca yn ysgrifennu'n gyson ar gyfer y *Western Mail* a *Golwg*. Dechreuodd ei gyrfa newyddiadurol yn gweithio ar *Gair Rhydd*, papur myfyrwyr Prifysgol Cymru Caerdydd, tra oedd yn fyfyrwraig yn Adran y Gymraeg yno.

## Marw T. J. Rhys Jones

Yn sydyn ar 24 Mai bu farw T. J. Rhys Jones yn 80 oed. Yr oedd yn ffigwr amlwg ym mywyd diwylliannol y brifddinas a'r genedl, a bydd colled fawr ar ei ôl mewn sawl cylch. Brodor o Gwmtawe ydoedd. Bu'n fawr ei gyfraniad i fyd addysg - yn athro, yn drefnydd iaith, ac yna'n ddarlithydd yng Ngholeg Cartrefle, Wrecsam. Yr oedd yn ysgolhaig manwl, a enillodd MA am draethawd ar yr anterliwt. Ef oedd awdur y gyfrol ar y Gymraeg yn y gyfres enwog *Teach Yourself*. . . Cyfrannodd yn helaeth hefyd i fywyd Eglwys y Tabernacl, Yr Ais. Estynnwn ein cydymdeimlad i'w weddw, Eilonwy, ei feibion, a gweddill y teulu.

## Cyfarwyddwr Newydd *Celtica*

Wedi treulio'r rhan fwyaf o'i yrfa hyd yma yng Nghaerdydd, yn swyddog ymchwil yn yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan ac yna'n gymrawd yn Adran y Gymraeg yn y Brifysgol, y mae Tecwyn Vaughan Jones newydd adael y Brifddinas i ddechrau ar ei ddyletswyddau fel cyfarwyddwr canolfan *Celtica* ym Machynlleth. Tra oedd yn Adran y Gymraeg, cyfrannodd yn sylweddol iawn at ddatblygiad y radd newydd unigryw, MA mewn Astudiaethau Gwerin, a da deall y bydd yn parhau i gyfrannu at ddysgu'r radd honno, ac y byddwn felly yn parhau i fwynhau ei gwmni yn gyson yma yng Nghaerdydd. Ac os bydd rhai o gymdeithasau Caerdydd am drefnu gwibdaith i *Celtica*, fe fydd croeso arbennig o gynnes iddynt yno!

## Darllenydd newydd

Llongyfarchiadau i'r Dr Peter Wynn Thomas, aelod o staff Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru Caerdydd, ac awdur y gramadeg safonol newydd, *Gramadeg y Gymraeg*, ar gael ei ddyrchafu'n Ddarllenydd gan y Brifysgol yn ddiweddar.

## Marw Moelwyn Merchant

Bu farw'r Dr Moelwyn Merchant yn ddiweddar yn 83 oed. Yr oedd yn ŵr amryddawn iawn – yn fardd, yn gerflunydd, ac yn feirniad llenyddol amlwg. Rhwng 1940 a 1961 bu'n ddarlithydd Saesneg yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd. Un o'i gyn-ddisgyblion oedd Siân Phillips yr actores enwog.

## Blodeugerdd Bryntaf

Fel y gŵyr darllenwyr *Y Dinesydd*, byddwn yn dathlu hanner can mlynedd sefydlu Ysgol Bryntaf, ysgol gynradd Gymraeg gyntaf Caerdydd, yn 1999. Mae'n fwriad gan y pwyllgor sy'n trefnu'r dathliadau gyhoeddi detholiad o waith creadigol y cyn-ddisgyblion. Gwahoddir y beirdd a'r llenorion o'u plith i anfon darnau o'u gwaith i'w hystyried ar gyfer y gyfrol at Ethni Jones, Alltywennol, Llanbedr-y-fro, Bro Morgannwg CF5 6NE (01446-760383), cyn gynted â phosibl, ac erbyn 1 Hydref fan bellaf.

## Crwydro Gwent

I gyd-fynd ag ymweliad Eisteddfod yr Urdd ag Islwyn, cyhoeddodd Gwasg Carreg Gwalch gyfrol ar Went yn eu cyfres newydd o arweinlyfrau, 'Cyfres Broydd Cymru'. Awdur y gyfrol yw Gareth Pierce, sydd wedi crwydro Gwent yn helaeth dros y blynyddoedd o'i gartref yn yr Eglwys Newydd.

**Llongyfarchiadau** i Gantorion Ardwyn ar ennill y wobr gyntaf ym mhrif gystadleuaeth gorawl Eisteddfod Pantyfedwen, Pontrhydfendigaid. Sefydlwyd y côr 32 o flynyddoedd yn ôl. Bydd yn canu'r Offeren yn G gan Schubert yn Eglwys Sant German, Y Rhath, Mehefin 28.

**Llongyfarchiadau** i Julie a Graham Pritchard ar enedigaeth Pedyr Cian Gaerwenydd, brawd i Cai, Aron a Garyn.

**Llongyfarchiadau** i Pedr James ar gael ei benodi'n bennaeth drama'r BBC yng Nghymru.

**Croeso** i Mrs Lal Hinks a'i merch, Manon, sydd newydd symud o Aberystwyth i fyw i Ffordd Allensbank.

**Marw ymhell**

Yn sydyn yn Saudi, lle yr oedd yn athro Saesneg, bu farw Vivian Roberts, unig fab Mrs Glenys Roberts a'r diweddar Mr Dafydd Roberts, a brawd Mrs Mair Tudno Jones. Estynnwn ein cydymdeimlad i'r teulu.

**Ddechrau** Mai bedyddiwyd Ffion Angharad, merch fach Carys ac Ian Watson, yn Eglwys y Crwys. Pob dymuniad da i'r teulu.

**Collodd** Dr Phil Ellis, Pen-y-lan, ei dad yn ddiweddar, a Mrs Ann Brain, Rhiwbina, ei mam. Estynnwn ein cydymdeimlad iddynt a'u teuluoedd.

**Ym mis Ebrill** bu farw Victor Roberts yn 95 oed ym Mhen-arth. Ef oedd gorsaf-feistr olaf y dref ac roedd yn ŵyr i'r telynor adnabyddus, John Roberts, Telynor Cymru. Cydymdeimlir â'i deulu yn eu colled.

**Gyda** braw a thristwch y clywodd pobl am farw anhymig Teleri West, plentyn naw oed Helen West o Bentre-poeth, Radur. Fe gafodd ei tharo gan gar a hithau nid nepell o'i chartref. Roedd yn ddisgybl yn Ysgol Gymraeg Coed-y-gof. Cydymdeimlir â'r teulu yn ei golled greulon.

**Cydymdeimlwn** ag Eric Williams, Rhiwbina (gynt o Gorris), a'r teulu oll, ar golli ei wraig Hilda, yn Ysbyty'r Brifysgol wedi cystudd hir.

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

## Bethel, Penarth

### Dathlu priodas aur

Yn ystod eu hymweliad â Hong Kong yn ddiweddar dathlodd Beti a Harri Waters, Penarth eu priodas aur. Dymuna aelodau Bethel yn dda iddynt wrth gyrraedd y garreg filltir hon.

### Gwasanaeth arbennig

Arweiniwyd gwasanaeth y plant ar ddechrau mis Mai gan Judith Humphries, sydd efallai'n fwy cyfarwydd fel Rachel, meddyg Cwmderi, ym Mhobol-y-cwm. Breintiwyd pawb oedd yn bresennol wrth glywed dawn y cyfarwydd i adrodd stori y breintiedig a'r difreintiedig.

### Swydd newydd

Mae Ceri Ann Parker, merch Mr a Mrs Anthony Parker wedi derbyn swydd athrawes am gyfnod o ddwy flynedd yn Botswanaland. Bydd yn cychwyn ar ei gwaith ym mis Medi. Mae Ceri'n athrawes ar ddosbarth o ieuenctid ym Methel ac yn gymeradwy iawn gan aelodau'r eglwys.

### Cofion

Aiff cofion yr eglwys at Mr Ellis Griffiths fu'n derbyn triniaeth mewn ysbyty lleol ond roedd yn dda gennym weld Mrs Margaret Rendall yn ôl yn ein plith yn dilyn damwain erchyll.

### Llongyfarchiadau

Nodyn hapus i gloi - sef llongyfarchiadau i Miss Nia Daniel am redeg yn ras farathon Llundain a'i chwblhau. Sicrhaodd y swm o £1,300 at apêl Tŷ Hafan. Diolch i bawb a'i noddodd.

* * * *

### Cofio Dau Emynydd

Achos Cymraeg ei iaith oedd Bethesda'r Fro, ger Sain Tathan, pan godwyd y capel ddechrau'r ganrif ddiwethaf, ac er i'r gwasanaethau droi i'r Saesneg erbyn hyn, yn y blynyddoedd diwethaf cynhaliwyd ambell gyfarfod yno yn y Gymraeg er coffâu gweinidog cyntaf yr achos, yr emynydd enwog, Thomas William.

Eleni, ar brynhawn Sul, 4 Mai, cynhaliwyd cyfarfod arbennig i goffâu nid yn unig Thomas William, ond hefyd emynydd amlwg arall o'r Fro, sef y Parch. W. Rhys Nicholas, Porth-cawl, a fu farw'n ddiweddar. Bu Mr Nicholas yn fawr ei gefnogaeth i'r achos ym Methesda'r Fro a chyhoeddodd lyfr ar Thomas William yn 1994.

Pregethwyd ar yr achlysur gan y Parch. Elfed Williams, Tre-hyl, a thraddodwyd teyrnged i W. Rhys Nicholas gan Mr E. Wyn James o Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru, Caerdydd. Yr oedd yn dda gweld y capel hardd yn llawn, a gweld ymhlith y gynulleidfa rai o ddisgynyddion Thomas William ynghyd â chynrychiolaeth o blith teulu Rhys Nicholas.

### Areithiau ymadawol

Bu dau o Eglwys y Crwys yn traddodi areithiau ymadawol yn Sasiwn y De yn Abertawe yn ddiweddar. Dod i ddiwedd ei flwyddyn yn Llywydd y Sasiwn yr oedd y Parch. Cynwil Williams a Mr D. Gwyn Jones yn gorffen cyfnod o ddwy flynydd yn Gadeirydd Cyfarfod Blaenoriaid y Sasiwn.

### Dwy Briodas yn y Crwys

Yn ddiweddar priododd Rhiannon Lloyd Jones, Caerdydd â Julian Michael Bill, Cheltenham, yng nghapel y Crwys. Mae Rhiannon yn Bennaeth Adran Fathemateg Ysgol Gyfun Llanhari a Julian yn gyfrifydd yn y Standard Chartered Bank.



Rhiannon Lloyd Jones a Julian Bill

Mae Julian wrthi'n dysgu Cymraeg ar hyn o bryd. Gall ganu'n Gymraeg yn barod gan fod y ddau ohonynt yn aelodau o gôr Cantorion Bae Caerdydd. Dyma'r englyn a ganodd Alun G. Davies, dirprwy brifathro Ysgol Gyfun Llanhari i ddathlu'r achlysur:

Ym mrethyn perthyn boed pwyth, – a chwlwm
Eich aelwyd yn esmwyth.
Gwawriodd dydd llawenydd llwyth,
A dolen rhwng dau dylwyth.

Yn ddiweddar hefyd priodwyd Eleri, merch yr Athro a Mrs John Gwynfor Jones â Robert Melhuish, Pen-y-lan yng nghapel y Crwys. Mae Eleri'n ysgrifenyddes i'r Parch. Dafydd Andrew Jones, Bwrdd y Genhadaeth yn Heol Richmond a Robert yn dechnegydd labordy gyda chwmni o optegwyr yng Nghasnewydd. Bwriada'r ddau ymgartrefu yn ardal Pen-twyn.



Eleri Jones a Robert Melhuish

**CYMDEITHAS Y CYMOD, CELL CAERDYDD**
**30 MEHEFIN YN EGLWYS DEWI SANT**
Fe fydd **MENNA ELFYN** yn cynnal gweithdy ar drais yn y cartref dan y teitl **'DIM LLAIS I DRAIS'**
Bydd hi'n cyflwyno gweithgareddau'n ymwneud ag ymddygiad heriol ac yn cyflwyno rhai cerddi o'i gwaith ei hun. Fe fydd y cyfarfod o ddiddordeb arbennig i bobl sy'n ymwneud â hawliau gwragedd a phlant yn y cartref.
Mynediad £1 y pen. Dewch yn llu. Cyfarfod yn dechrau am saith.
Noddir y noson gan Gyngor y Celfyddydau.

# YSGOL GLANTAF

### Traws Gwlad yr Urdd

Ddydd Sadwrn 26 Ebrill, teithiodd dau fws mini'r ysgol i fyny i Aberystwyth i gystadlu ym Mhencampwriaeth Traws-gwlad yr Urdd. Bu'r cystadlu'n frwd a bu'r ysgol yn ddigon llwyddiannus i gipio'r darian i'r ysgol â'r mwyaf o farciau. Llongyfarchiadau hefyd i Siân Harris am ddod yn gyntaf yn ei ras a hefyd i dîm bechgyn Blwyddyn 8. Mae Siân wedi ei dewis hefyd i sgwad pêl-rwyd Cymru.

### Cynghrair Pêl-rwyd

Llongyfarchiadau i dîm pêl-rwyd hŷn Glantaf ar ennill cynghrair 'B' ysgolion De Morgannwg. Dros y flwyddyn mae'r tîm wedi bod yn chwarae yn rheolaidd yng Ngerddi Soffia ar nos Iau. Bydd yr un tîm yn cystadlu y flwyddyn nesaf ond ar ôl eleni bydd y tîm yn cael ei ddyrchafu i gynghrair 'A'.

### Cwpan Rygbi Caerdydd

Llongyfarchiadau i dîm rygbi dan 16 yr ysgol ar ennill Cwpan Caerdydd. Gwrthwynebwyr Glantaf yn y gêm derfynol oedd Ysgol Corpus Christi. Roedd taclo Corpus Christi yn dda iawn ond torrodd Glantaf drwy eu hamddiffyn dro ar ôl tro gyda Oliver Jones a Dai Richards yn ennill pêl dda yn y llinellau. Y sgôr terfynol oedd 34 i Ysgol Glantaf ac 19 i Ysgol Corpus Christi. Sgoriodd y capten Hywel Jones ac Elgan Jones ddau gais yr un a llwyddodd y blaenasgellwr David Provis i sgorio un cais. Sgoriodd Ryan Jones un gic gosb a thri throsgais, a Nicky Robinson un trosgais.

### SENEDD IEUENCTID EWROP

Yn ddiweddar, bu grŵp o ddeg o ddisgyblion Chweched Dosbarth Ysgol Glantaf yn llwyddiannus mewn cystadleuaeth a noddwyd gan yr Undeb Ewropeaidd. Eu gwobr yw taith i Brifysgol Caerefrog (*York*) i gymryd rhan yn rownd derfynol Prydain o Senedd Ieuenctid Ewrop.

Er mwyn cyrraedd y rownd derfynol, roedd yn rhaid cystadlu ar ffurf traethawd ar y teitl "Polisi Ewropeaidd tuag at Ieuenctid Di-freintiedig Ewrop". Trafodwyd materion yn ymwneud ag addysg, anabledd, tlodi, diweithdra, anghydbwysedd rhanbarthol, cludiant, digartrefedd ac aelodaeth o gymunedau ieithoedd lleiafrifol.

Ar ôl i bwyllgor y gystadleuaeth ystyried 250 o draethodau, dyfarnwyd bod Glantaf yn y 10 uchaf, ac o ganlyniad byddant yn cystadlu yn Swydd Efrog ym mis Medi yn rownd derfynol Prydain. Cyn mynd i Gaerefrog, mae'n rhaid i'r grŵp baratoi polisi drafft ar fater cyffuriau anghyfreithlon yn yr Undeb Ewropeaidd. Yn y rownd honno, bydd yn rhaid paratoi papur polisi a chefndir ar fater cyffuriau, a bydd yn rhaid i'r grŵp baratoi eu dadleuon yn Saesneg a Ffrangeg.

Aelodau'r tîm yw Gwenllian Griffiths, Nia Jones, Dafydd Phillips, Richard Campbell, Steffan Morgan, Gwenfair Michael, Rhys Morgan, Marc Thomas, Alexis Poole a David Williams. Dymunwn yn dda iddynt wrth iddynt baratoi ar gyfer y rownd derfynol. Eu gwobr ar ôl y rownd honno fydd lle yn Senedd Ieuenctid Ewrop yn Granada, Sbaen.

**Dyddiadau i'w nodi:**

| | | |
|---|---|---|
| Mehefin 28 | - | Ffair Haf Glantaf |
| Gorffennaf 11 | - | Barbeciw yn yr Ysgol Uchaf |
| Medi 12 | - | Noson gyda Owen Money |



Tîm Traws-gwlad buddugol Glantaf.
Yn dal y darian mae Siân Harris, Blwyddyn 10



Tîm Pêl-rwyd Hŷn Glantaf
*Rhes Flaen:* Rhian Rogers, Gwenllian Griffiths, Nia Jones
*Rhes ôl:* Elen Beth Morris, Sharyn Crayford, Ffion Tudur, Rhiannon Williams *Yn absennol:* Rhian Samuel, Kate Newton

### Cyngerdd Ffarwel yr Adran Gerdd

Daeth yn draddodiad bellach i aelodau'r Adran Gerdd sy'n ymadael â'r ysgol gynnal cyngerdd i arddangos eu talent a'u medrusrwydd cerddorol. Eleni eto roedd y gyngerdd o'r safon uchaf.

Cafwyd rhai gweithiau newydd sbon gan gyfansoddwyr ifainc yr Adran: darn i grŵp siambr gan Dafydd James yn cofio trychineb Dunblane; *Preliwd* i'r piano gan Gareth Hughes; *Ffanfer* i'r cornet gan Andrew Smith; darn i'r piano, *Der Sturm*, gan Gwyneth Evans; a dwy gân, *Yr Ystlum* a *Glas y Dorlan*, gan Nerys Jones.

Perfformiwyd amrywiaeth o eitemau lleisiol ac offerynnol gan Trystan Francis, Nerys Jones, Dafydd James, Rhys Beynon, Catrin Rogers, Prys Deiniol, Gareth Hughes, Samantha Hailes, Nicholas Jones, Anna Auchterlonie, Andrew Smith, Trystan a'r criw a cherddorfa siambr. Cerddorfa'r ysgol oedd yn agor a chloi'r noson.

Eleni am y tro cyntaf cafwyd eitemau llefaru gan ddisgyblion sy'n astudio'r Gymraeg i lefel A. Darllenodd Catrin Rogers, Siân Couch a Dafydd James rai o'u cerddi gwreiddiol. Cyflwynwyd y perfformwyr ac arweiniwyd y gerddorfa gan bennaeth yr Adran Gerdd, Mr Alun Guy.

### Cyngerdd cofiadwy

Cynhaliwyd cyngerdd arbennig gan nifer o rieni Ysgol Gyfun Glantaf ddiwedd Ebrill dan nawdd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol. Cymerwyd rhan gan Paul Gyton (tenor), Arwel Huw Morgan (bariton), Dewi Watkins (sielo) Jean Marsden Codd (obo), Robert Codd (baswn) ac Ingrid Surgenor (piano). Roedd yn noson i'w chofio yng ngwir ystyr y gair.

**Llongyfarchiadau** i Nia Edwards a Hefin Griffiths, dau o athrawon Ysgol Glantaf, ar eu dyweddïad yn ddiweddar. Daw Nia o Dregaron a Hefin o Dreforys.

# EIN HYSGOLION CYNRADD CYMRAEG

dan ofal B.D. Harries

## YSGOL Y WERN

### Gwaith Mosaic

Bu disgyblion Blwyddyn 6 yn brysur yn ddiweddar yn creu chwe mosaic ar gyfer Ysbyty Athrofaol Cymru. Cafodd y plant eu harwain gan yr artist Anna Todd, a fu yn gweithio gyda'r plant dros dair wythnos. Ar ôl gorffen y gwaith, estynnwyd gwahoddiad i'r plant ymweld â'r ysbyty er mwyn bod yn rhan o'r seremoni i ddadorchuddio y lluniau. Mae cyfle i bawb weld eu gwaith ar furiau'r ysbyty.



Rhai o ddisgyblion Bl. 6 gyda'r gwaith mosaic

### Pencampwyr y Sir

Ysgol y Wern yw pencampwyr y sir eleni yng nghystadleuaeth Diogelwch yr Heol Fawr. Fe ddechreuodd y rownd gyntaf nôl ym mis Hydref gyda dros 70 o ysgolion y sir yn cystadlu. Noson gyffrous oedd hi i bawb yn Neuadd y Sir, Glanfa Iwerydd pan ddaeth y pedair ysgol - Millbank, Pentre-baen, Cefn-onn a'r Wern - i gystadlu yn y Rownd Gynderfynol a'r Derfynol. Fe gafodd y plant eu gwobrwyo yn unigol gan John Phillips, Arglwydd Faer Caerdydd, a chafodd yr ysgol darian a rhodd ariannol. Llongyfarchiadau i'r tîm - Dafydd Franklin, Owen John, John Rees, Elinor Evans a Rhian Owens.



Y tîm buddugol gyda'r Arglwydd Faer

Llongyfarchiadau i Tom Houdmont (Blwyddyn 5) a'i chwaer Siân Houdmont (Blwyddyn 3) a ddaeth yn fuddugol yn ddiweddar mewn cystadleuaeth badminton yn y sir. Da iawn chi'ch dau a daliwch ati.



Tom a Siân Houdmont

### Seren y Sgrîn

Ym mis Chwefror, cefais alwad ffôn oddi wrth ffrind i Mam a Dad. Gofynnodd i mi fynd i Theatr Sherman er mwyn cael gwrandawiad ar gyfer hysbyseb a fyddai'n denu plant o ysgolion uwchradd i geisio am swyddi yn y BBC. Es i am wrandawiad a bues yn llwyddiannus. Cefais fynd i Lundain ac actio yn Ealing mewn tŷ cyngor. Mwynheais wneud yr hysbyseb gyda'r actorion a Kevin Allen y cyfarwyddwr.

*Steffan Jones*
(Blwyddyn 5)

### Prifathrawes Ysgol Melin Gruffydd

Llongyfarchion i Mrs Mair Robins ar gael ei dyrchafu'n brifathrawes Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd. Hydera'r *Dinesydd* y bydd yn mwynhau blynyddoedd hapus yn ei swydd newydd. Mae Mrs Robins yn hen gyfarwydd â'r ysgol gan iddi gyflawni gwaith gwerthfawr yno fel athrawes ymroddedig am flynyddoedd.

# NEWYDDION YR URDD

## EISTEDDFOD YR URDD '97

## Llongyfarchiadau i bawb a fu'n llwyddiannus eleni!

**Unawd Telyn dan 12 oed**
1af Mali Llywelyn, Ysgol Pen-y-garth
**Unawd Piano dan 12 oed**
1af Mali Llywelyn, Ysgol Pen-y-garth
**Unawd Llinynnol dan 12 oed**
3ydd Selyff Shapey, Ysgol Y Wern
**Llefaru Unigol 10-12 oed**
3ydd Steffan Jones, Ysgol Y Wern
**Llefaru Unigol 10-12 oed (Dysgwyr)**
2il Melissa Kay, Ysgol Willowbrook
**Grŵp Llefaru Blwyddyn 6 ac iau**
1af Ysgol Treganna
**Grŵp Cerddoriaeth Greadigol Blwyddyn 6 ac iau**
1af Ysgol Y Wern
**Ymgom dan 12 oed**
1af Ruby a Cara, Ysgol Treganna
**Parti Dawns oedran Blwyddyn 6 ac iau**
3ydd Ysgol Iolo Morganwg
**Dawns Greadigol oedran Blwyddyn 6 ac iau**
3ydd Ysgol Eglwys Wen
**Cyflwyniad Dramatig oedran Blwyddyn 6 ac iau**
3ydd Ysgol Pen-cae
**Unawd Pres 12-15 oed**
3ydd Lindsey Kemply, Ysgol Llanilltud Fawr
**Unawd Chwythbrennau 12-15 oed**
2il Iestyn Shapey, Ysgol Glantaf
**Unawd Llinynnol 15-19 oed**
2il Jonathan Shapey, Ysgol Glantaf
**Parti Dawns oedran Blynyddoedd 10-13**
3ydd Ysgol Glantaf
**Grwp llefaru Blynyddoedd 10-13**
3ydd Ysgol Glantaf
**Llefaru Unigol 19-15 oed**
2il Catrin Prys Williams
**Unawd Telyn 15-19 oed**
1af Nia Pirotte, Ysgol Glantaf
**Siarad Cyhoeddus Unigol dan 19 oed**
1af Gwenfair Michael, Ysgol Glantaf
**Siarad Cyhoeddus Unigol 19-25 oed**
1af Catrin Prys Williams, Aelod Unigol, Caerdydd
**Ensemble Llais**
1af Ysgol Melin Gruffydd
**Llefaru Unigol 12-15 oed**
3ydd Siân Elin Williams, Ysgol Glantaf

### Celf a Chrefft

**Argraffu neu Addurno ar Ffabrig**
3ydd Kane Morse, Ysgol Treganna
**Tegan neu Gerflun Meddal**
1af Rebecca Jones, Ysgol Treganna
**Print Lliw**
1af Heulyn Greenslade, Ysgol Treganna
**Cyfres o brintiau du a gwyn**
2il Christpher Bond, Ysgol Pen-cae
**Pypedau**
1af Ioan Evans, Ysgol Pen-cae
**Dylunio a Thechnoleg**
1af Vicky, Bradley, Carley, Tamsin, Curtis, Elin a Laura. Ysgol Sant Curig

**Parti Merched oedran Blwyddyn 7, 8 a 9**
3ydd Ysgol Glantaf
**Ensemble Blwyddyn 7, 8 a 9**
2il Ysgol Glantaf
**Llefaru Unigol 15-19 oed (Dysgwyr)**
1af Elisabeth Toye, Ysgol Howells
**Unawd Bechgyn 15-19 oed**
1af Owain Wilkins, Ysgol Glantaf


Ruby a Cara, enillwyr yr Ymgom dan 12 oed


Ysgol Y Wern, enillwyr y Grŵp Cerddoriaeth Greadigol


Ysgol Melin Gruffydd, enillwyr yr Ensemble Llais


Ysgol Treganna, enillwyr y Grŵp Llefaru Bl. 6 ac iau

# Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies




## Y Bêl Gron

### Clwb Cymric (Tymor 1996-1997)

Yn ddiamau dyma'r tymor mwyaf llwyddiannus yn hanes y clwb er ei sefydlu 28 mlynedd yn ôl. Trwy golli ond dwy gêm er Medi 1996, llwyddodd y clwb i ddod yn ail yn Uwch-Adran Cynghrair Caerdydd a'r Cylch, ac yn fwy arwyddocaol byth, i ennill dwy gystadleuaeth cwpan. Roedd y dathlu yn fawr wedi sicrhau buddugoliaeth o 2-0 yn erbyn St Albans (Martyn Williams a Mark Whitley yn sgorio) yng Nghwpan Lord Ninian Stuart, ac yna o 1-0 yn erbyn Grange Quins gyda Daf Du (Radio Cymru) yn sicrhau gôl allweddol yng Nghwpan Cefnogwyr Caerdydd. Dyma'r tro cyntaf i'r clwb ennill unrhyw gystadleuaeth yn ei hanes.



Yn ychwanegol at hyn llwyddodd yr ail dîm i sicrhau dyrchafiad i'r ail adran ac mae'r diolch am hyn oll yn mynd i'r capteiniaid - Dilwyn Owen ac Alan Edwards - ac ymroddiad y chwaraewyr trwy'r tymor. Y gobaith y tymor nesaf yw sicrhau'r bencampwriaeth ac mae'r clwb yn chwilio am noddwyr y flwyddyn nesaf i fynd â'r clwb gam yn bellach. Mae'r dathlu hefyd yn parhau gyda Chinio Blynyddol Clwb Cymric yng Ngwesty'r Manor Park, Draenen Pen-y-graig (*Thornhill*) gyda Mark Aizlewood yn siaradwr gwadd. Dymuna'r clwb ddiolch i Gwmni Symud Celfi Fred Brooks (Caerffili) am ei nawdd ac i Glwb Cameo am eu cyfeillgarwch trwy'r tymor.

### Ymateb Caerdydd v Northampton

Os ydych yn cefnogi'r Adar Glas roedd hi'n anodd cuddio siom canlyniad y "Play Off" yn erbyn Northampton. Er dim ond crafu i'r seithfed safle a wnaeth Caerdydd, roedd eu perfformiad yn erbyn un o dimau mwyaf corfforol yr adran yn un gwan. Nid oes gan y tîm unigolion i guro amddiffynwyr a sicrhau cyflenwad o feddiant a chroesi i'r blaenwyr, Howarth a Dale. Er bod chwaraewyr addawol ar lyfrau'r clwb, mae eu penderfyniad i werthu Howarth i Coventry am hanner miliwn o bunnau yn achosi i'r cefnogwyr bendroni ychydig, a hwythau'n hawlio'n gyhoeddus eu bod yn datblygu polisi ieuenctid ar gyfer y dyfodol. Tymor arall felly yn y drydedd Adran heb fawr o sôn bod arian ar gael i'w wario. Pa obaith sydd i glwb sy'n mynnu gwerthu eu goreuon yr eiliad y mae llygedyn o obaith ar y gorwel?

*Hywel Price*

### Cinio arbennig

Ddechrau Mai cynhaliwyd cinio arbennig yng Nghanolfan Chwaraeon Cymru, Gerddi Soffia, i ddathlu 25 mlynedd oddi ar sefydlu Cyngor Chwaraeon Cymru. Daeth dros dri chant o bobl ynghyd a chyflwynwyd gwobrau i'r chwaraewyr a'r athletwyr gorau yng Nghymru ers sefydlu'r ganolfan. Anrhydeddwyd Gareth Edwards a Jonathan Davies ym myd rygbi, a Colin Jackson am ei gampau ym myd athletau. Yn adran y merched anrhydeddwyd Tanni Grey, Kirsty Walker ac Anne Ellis. Anrhydeddwyd hefyd dîm rygbi Cymru 1978, tîm hoci merched 1975 a Diawliaid (byd yr iâ) Caerdydd.

## CRICED

Yr oedd hi'n ddeng niwrnod cyn diwedd mis Mai pan ysgrifennais y llith hon - adeg pan ddylasem fod yn mwynhau prynhawniau difyr yn gwylio'r 'Gwirioniaid Gwlanennog' yn taro'r bêl goch heibio i faeswyr diymadferth a'r bowlwyr yn ymdrechu i gael wiced trwy dwyllo'r batiwr wrth wyro'r bêl neu'i throi oddi ar y llain. Batwyr yn ceisio saernïo cant arall er ennill gornest neu'n gwneud eu gorau i sicrhau na chaiff y gwrthwynebwyr gipio'r llawryf, a'r cyfan o dan haul mewn wybren ddigwmwl. Gwynfyd yn wir. Ond roedd hi'n wlyb ac yn oer, ac ymyrasid ar dair gornest gyntaf Morgannwg yn y Bencampwriaeth - ac am y gystadleuaeth hon y soniaf - canys i mi dyna beth yw criced; erbyn hyn, gornestau undydd sy'n denu'r dorf, y prawf amlycaf nad yw hi fel y bu hi gynt. Diolch am ornestau pedwar diwrnod y siroedd, ac mae naw o'r rhain gartref yn rhestr Morgannwg yr haf hwn. Chwaraewyd tair, dwy oddi cartref yn Swydd Efrog a Swydd Gaint, a'r gyntaf yng Nghaerdydd yn niwedd Ebrill, ac oni bai am y glaw byddai Morgannwg wedi ennill y tair; er mai un yn unig a enillwyd - honno yng Nghaergaint (*Canterbury* i'n darlledwyr radio) - nid oes amheuaeth o gwbl mai buddugoliaethau a'u cawsid gartref yn erbyn Swydd Warwick ac yn Elfed, y rhanbarth hwnnw yng Ngogledd Lloegr sy'n cynnwys maes Headingley erbyn hyn.

Dechreuwyd y tymor yn wych pan ddewisodd Warwick fatio a cholli'u deg wiced am 151, yna sgoriodd Steve James (83) a Hugh Morris (233), 190 rhyngddynt am y wiced gyntaf, a chaeodd Matthew Maynard y batiad pan oedd hi'n 551 am 3 (Adrian Dale 106). Sgôr uchaf Morris oedd hwnnw ac nid oedd allan 'chwaith - bu raid iddo ymadael â'r llain am iddo gael ei anafu gan Allan Donald. 77 am 3 oedd Warwick yn eu hail fatiad, ond ni ellid chwarae o gwbl ar ddau ddiwrnod ola'r ornest oherwydd y glaw y diolchwyd amdano gan arddwyr a golchwyr ceir.

Nid oes eisiau manylu am y ddwy ornest arall, ond yr oedd Morgannwg yn ail yn y Bencampwriaeth cyn chwarae Hampshire yng Ngerddi Soffia wedi ennill deuddeg pwynt bowlio a naw pwynt batio, a disglair oedd rhagolygon y criced onid y tywydd.

Ni allaf fi ymhyfrydu y bydd Robert Croft yn colli'r rhan fwyaf o'r haf am iddo gael ei ddewis i Loegr yn erbyn yr Awstraliaid. Colled drom i'r wlad hon, gan iddo ddisgleirio â'r bêl (15 wiced yn y tair gornest) a'r bat (cyfartaledd o 41.66 yn ei dri batiad) cyn gwisgo ei gap arall.

Bu croeso mawr i un o fowlwyr cyflym gorau'r byd, Wagar Younis, pan lithiwyd i'r wlad i chwarae dros ein tîm; mae ganddo 216 o wicedi mewn gornestau dros Bacistan, a thrawodd 47 o rediadau yng Nghaergaint pan oedd y sir yn gwegian braidd yn ei batiad cyntaf.

Yr wyf fi'n edrych ymlaen yn eiddgar at dymor da yn y Bencampwriaeth ac yn sicr bydd Morgannwg yn uwch ar ei ddiwedd nag a oedd y llynedd pan oedd hi'n ddegfed. Ni phroffwydaf mai ein sir ni a'i hennill, ond ni welaf unrhyw reswm pam na ellir ei wneud. O, na byddai'n haf nid o hyd, ond am ryw ychydig.

# Dysgwyr y Ddinas

dan ofal Gareth Kiff

Yn dilyn llwyddiant 'Noson i'r Teulu' y Barri ym mis Ebrill bydd noson arall yn cael ei chynnal y mis yma. Roedd tua 100 o bobl wedi dod i noson y Barri ac wedi mwynhau perfformiadau gwych Martin Geraint a Geoff Wright a sesiynau rygbi, pêl-droed a phêl-rwyd.

Felly, cofiwch ddod i'r noson nesaf yng Nghanolfan Hamdden Tyllgoed (*Fairwater*) NOS SADWRN 28/6/97, 6-10 p.m. Bydd digon o bethau gwahanol i'w mwynhau. DEWCH Â'R TEULU I GYD!!

Mae 23-28 Mehefin yn wythnos bwysig iawn. Wythnos 'Codi Ymwybyddiaeth y Gymraeg' ydy hi. Yn ogystal â'r 'Noson i'r Teulu' bydd llawer o bethau eraill ymlaen trwy'r wythnos. Ffoniwch Gill Stephen (Coleg Glan Hafren) ar (01222) 250439 am ragor o fanylion.

### TAITH I LANGYNWYD

Ydych wedi clywed y stori enwog am Ann Thomas a'i chariad Wil Hopcyn? Bardd oedd Wil Hopcyn ac, yn ôl y stori, ysgrifennodd eiriau'r gân enwog 'Bugeilio'r Gwenith Gwyn'.

Bydd taith i Langynwyd, ger Pen-y-bont ar Ogwr, NOS FERCHER 25/6/97. Bydd y bws yn gadael Caerdydd am 6 p.m. (tu allan i Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Parc Cathays). Bydd modd gweld yr ardal a chael noson o hwyl mewn tafarn leol! Os hoffech gadw sedd ar y bws neu dderbyn rhagor o wybodaeth cysylltwch â fi ar (01222) 486469 neu 755475 gyda'r nos.

### CLWB FFILMIAU

Mae llawer o ffilmiau Cymraeg yn cael eu dangos yng Nghanolfan Chapter ar hyn o bryd. Hoffech chi fynd i weld ffilm (neu ddrama) Gymraeg gyda grwp o bobl a mwynhau noson allan yn y Gymraeg? Os 'hoffwn!' ydy'r ateb, cysylltwch â fi neu Miranda Morton ar (01222) 253868.

### CYRSIAU CYMRAEG YR HAF

Beth am fynd ar gwrs haf Canolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion (30/6/97-4/7/97) a manteisio ar y cyfle i fwynhau wythnos Gymraeg yng nghanol Caerdydd a chael hwb (*boost*) cyn gwyliau'r haf. Ffoniwch (01222) 390980.

### CLWB CLEBRAN

Cofiwch fynd i glwb 'Siawns am Sgwrs' yn y Ganolfan Dysgu Cymraeg, 22 Park Place, Caerdydd, DDYDD MAWRTH 17/6/97 rhwng 1-2 p.m. Dyma'r sesiwn olaf cyn yr haf.

### CYRSIAU ADOLYGU

Bydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn cynnal cyrsiau adolygu yn ystod mis Gorffennaf ac Awst ar gyfer dysgwyr o bob lefel. Peidiwch ag anghofio eich Cymraeg dros y gwyliau. Dewch am un noson yr wythnos a chwrdd â ffrindiau newydd. Ffoniwch Robat ap Tomos ar (01222) 496469.

## DYDDIADUR DIGWYDDIADAU - CAERDYDD A'R FRO

| | |
|---|---|
| **Pob dydd Mercher** 12.00 - 2.00pm | Clwb Coffi, Clwb Ifor Bach, Stryd Womanby, Caerdydd Ffoniwch Christine Franks 01222 513046. |
| **Pob nos Iau** 9.15pm ymlaen | Siawns i gael peint (neu sudd oren!) a siarad llawer o Gymraeg! Lolfa Gwesty Parc y Rhath (*Roath Park Hotel*) Heol y Plwca (*City Road*). |
| **Pob bore Gwener** 9.45 - 11.45am | Clwb Coffi y Barri, Canolfan Palmerston Christine Franks 01222 513046. |
| **Pob dydd Gwener** 1.00pm - 3.00pm | Clwb Coffi Treganna, Canolfan yr Urdd, Heol Conwy, Caerdydd. Ffoniwch Christine Franks 513046. |
| **Pob dydd Gwener** Amser cinio | Mae nifer o Gymry Cymraeg a dysgwyr yn cwrdd i sgwrsio'n anffurfiol. Lolfa'r 'Duke of Wellington' yn Y Bont-faen. |
| **Pob bore Sadwrn** 10.45am | Cyfle arall i ymarfer eich Cymraeg dros baned yn Festri'r Tabernacl, Yr Ais (*The Hayes*), Caerdydd. |
| **Pob bore Sadwrn** 11.00am - 2.00pm | Clwb Sadwrn ACEN: cyfle i ymarfer eich Cymraeg a mwynhau eich hunan. Ffoniwch Rhun 01222 665455 am fanylion. |
| **Yn ôl y galw** | Cymorthfeydd. Y cyfle i ddysgwyr neu diwtoriaid drafod eu problemau gyda gwaith neu gyrsiau. Ffoniwch Gill Stephen 01222 250439. |

Am fanylion pellach ynglŷn â chyrsiau Cymraeg cysylltwch â GILL STEPHEN Tiwtor-Drefnydd Consortiwm Dysgu Cymraeg i Oedolion Caerdydd a'r Fro yng Ngholeg Glan Hafren, Y Parêd, Caerdydd (01222) 250439

## Y GYMRAEG YNG NGHAERDYDD

Amcangyfrifir bod 306,500 o bobl yn byw yn Sir Caerdydd erbyn hyn a bod tuag 20,000 o'r boblogaeth honno yn medru'r Gymraeg. Felly yn ystadegol mae 6.6% o'r boblogaeth tair oed a throsodd yn rhugl yn yr iaith. Mae un ymhob deg o drigolion Llandaf, Radur, Sain Ffagan, Rhiwbina a'r Eglwys Newydd yn siarad yr iaith tra yn Llanrhymni a'r Sblot dim ond 2.7% sy'n arddel yr iaith. Mae 15.9% o Ward y Creigiau yn siaradwyr ac ym Mhentyrch ceir 14.2% o'r boblogaeth yn rhugl. Felly, ymddengys fod y Gymraeg ar ei fyny yn y rhan hon o Gymru. Mae hyn i'w briodoli i'r cynnydd yn y galw am addysg drwy'r Gymraeg a'r mewnfudo o rannau eraill o Gymru i ymgymryd â swyddi yn y ddinas. Gyda'r twf mewn addysg Gymraeg tybed faint o siaradwyr fydd yn y Sir erbyn y cyfrifiad nesa?

Mae tipyn o ddŵr wedi llifo dan y bont ers dyddiau agor yr Ysgol Sadwrn yn Nhŷ'r Cymry yn 1944 ac agor dosbarth Cymraeg yn Ysgol Parc Ninian yn 1949 a dyfodd yn ysgol ar wahân, ar safle y Pen-cae presennol i ddechrau. Trodd yr ysgol honno yn bedair ysgol gynradd ar draws y ddinas yn 1979 ac erbyn hyn mae wyth ysgol gynradd Gymraeg ar agor. Agorodd y cylch meithrin Cymraeg cyntaf yn y ddinas yn 1951 ac erbyn heddiw mae 35 o Gylchoedd Meithrin a 21 o Gylchoedd Ti a Mi.

Agorodd Ysgol Gyfun Glantaf yn 1978 ac oherwydd y galw am addysg Gymraeg. Yn ddiweddar y mae Cyngor Sir Caerdydd wedi cyhoeddi ei fwriad i greu dwy ysgol gyfun Gymraeg o fewn ei diriogaeth sef Ysgol Gyfun Plasmawr ar safle presennol Ysgol Isaf Glantaf ym Mhentre-baen, ac Ysgol Gyfun Glantaf ar safle presennol Ysgol Uchaf Glantaf yn Ystum Taf. Bydd ysgolion Coed-y-gof, Pen-cae, Treganna, Y Creigiau, Gwaelod-y-garth, Pen-y-garth, Iolo Morganwg a Phwll Coch yn bwydo Ysgol Gyfun Plasmawr ac ysgolion Bro Eirwg, Melin Gruffydd, Y Wern, Mynydd Bychan, Sant Baruc a Sant Curig yn bwydo Ysgol Gyfun Glantaf.

Wrth lawenhau yn y fath lwyddiant rhaid cofio gwaith aruthrol yr arloeswyr a lwyddodd i sicrhau dyfodol i'r iaith yn y rhan hon o Gymru. Ni fu eu hymdrechion yn ofer.

**Gwilym E. Roberts**

**Lle bynnag y defnyddiwch drydan, gallwch ddibynnu ar SWALEC.**

**Ar gyfer pethau bach ac ar achlysuron pwysig.**

**Rydym yn gweithio'n galed ddydd a nos i sicrhau ei fod wastad yno i chi.**

***Gweithredu pan ddaw'r galw***

***Byddwn wastad yno i chi***

SWALEC

A Hyder company



honno

Ar gyfer Plant:

Mwy Nag Aur, *Meinir Wyn Edwards*

Who's Afraid of the Bwgan-Wood?, *Anne Lewis*, Enillydd Gwobr Tir Na n'Og 1996

Clare & Effie, *Merryn Williams*

Ar gyfer Oedolion:

This was a Small Death, *Janet Dubé*

Lottie, *Jacqueline Jacques*

Not Singing Exactly, *Siân James*

Enillydd Llyfr y Flwyddyn 1997 Cyngor Celfyddydau Cymru

Zé, *Renee Smith*

(Y llyfr yr oedd y cysodydd yn ei ddarllen wrth ei gysodi!)

Travels with the Duchess (ad-argraffiad), *Menna Gallie*

Vixen, *Glenda Beagan*

Silly Mothers (ail-argraffiad), *Catherine Merriman*

Children of Rebecca, *Vivien Bailey*

Dancing In Circles, *Julia Hawkes-Moore*

Ac ar werth am hanner pris: Parachutes & Petticoats

Honno, Gwasg Menywod Cymru

01222 515014

01267 232338

01970 623150



## NSPCC Cymru

### GWEINYDDYDD APELIADAU

£11,874 i £13,233

a 25 diwrnod o wyliau a Phensiwn digyfraniad

Rydym eisiau gweinyddydd medrus i ddarparu cefnogaeth ysgrifenyddol a threfniadol i'n Pennaeth Apeliadau yng Nghymru, a leolir yng Nghaerdydd. Mae'r gwaith yn brysur ac yn amrywiol a bydd eisiau arnoch chi:

- sgiliau teipio cyflym a chywir tuag at safon RSA II
- cymhwyster yn Windows 95 ac Excel
- y gallu i flaenoriaethu a gweithio'n gywir, dan bwysau
- bod yn rhugl yn yr iaith Gymraeg

Am wybodaeth pellach danfonwch amlen A4 mawr stampiedig gyda'ch cyfeiriad a 60c ar gyfer postio, yn nodi cyfeirnod swydd WMW98 i Mrs. Val Call, NSPCC Cymru, 9 Heol Brindley, Caerdydd, CF1 7TX.
Ni dderbynnir unrhyw CVs.

Mae dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ar 11 o Orffennaf 1997 a chynhelir y cyfweliadau ar 25 Gorffennaf 1997 a 31 Gorffennaf 1997 yng Nghaerdydd.

Mae'r NSPCC yn ymrwymedig i gyfle cyfartal ac yn bodoli i rwystro creulondeb i blant.

Rhif Elusen Cofrestredig. 214601

CBAC WJEC

**SIOP LYFRAU**

- CYN-BAPURAU, MEYSYDD LLAFUR
- CYHOEDDIADAU'R UNED IAITH
- LLYFRAU GOSOD TGAU A SAFON 'UWCH'
- LLAWLYFRAU ASTUDIO
- CYHOEDDIADAU CILT
- ADNODDAU AR GYFER Y DYSGWYR
- CD-ROMS, FIDEOS + PHOSTERI
- ARCHEBION POST

**AR AGOR**
**LLUN - GWENER**
**9.00am - 5.00pm**

245 Rhodfa'r Gorllewin Llandaf CAERDYDD CF5 2YX
☎ (01222) 265063 (Cyhoeddiadau/Cyffredinol)
☎ (01222) 265112 (Cyn-bapurau, Meysydd Llafur)
FFACS: (01222) 575987

J. A. HUGHES gyda
REES WOOD a TERRY

A ydych chi wedi cael
**damwain?**

Efallai y gallwch hawlio
**iawndal?**

Mae'r cyfweliad cyntaf
**yn rhad ac am ddim.**

Cysylltwch â
Rhys Ll. Thomas
01222 666222

## Rydych wedi newid y Llywodraeth
## Nawr gallwch newid wyneb Cymru

Ar ddechrau mis Mai chwaraeodd pobl Cymru ran mewn newid Llywodraeth Prydain. Yn fuan bydd gan bobl Cymru y cyfle i newid y modd y llywodraethir Cymru.

Mae'r Llywodraeth newydd yn addo cynnig refferendwm yn yr Hydref i bobl Cymru ar y cwestiwn a ddylem cael Cynulliad sy'n medru dod â democratiaeth ac atebolrwydd i fywyd cyhoeddus yng Nghymru.

Mae **Ie dros Gymru** yn fudiad croes-bleidiol ac amhleidiol, ac ein hunig amcan yw sicrhau fod refferendwm yn mynd i greu pleidlais bositif. Rydym yn ddibynnol ar wirfoddolwyr a chyfraniadau ariannol i sicrhau nad ydy'r cyfle hwn i wneud datganoli gwleidyddol yn realiti, yn cael ei wastraffu.

Nawr fod gwleidyddiaeth yr Etholiad Cyffredinol drosodd, mae'r amser i bob un ohonom sy'n credu mewn rhoi mwy o lais i Gymru i gydweithio i sicrhau fod y refferendwm yn cael ei hennill, beth bynnag fo'n plaid wleidyddol. Dechreuodd y cyfri tuag at y refferendwm ar Fai'r 1af.

# IE dros Cymru

Mae grŵp lleol eisoes wedi cael ei sefydlu i Ddinas Caerdydd ac mae'n debygol iawn y bydd Grŵp Bro Morgannwg yn bodoli yn fuan iawn.

---

Os ydych am ymuno ag **Ie dros Gymru**, cwblhewch y ffurflen yma, ticiwch y blychau priodol, a'i hanfon yn ôl i:

**IE DROS GYMRU, 7 St. Andrew's Place, Caerdydd. CF1 3BE**

Ydw, rydw i am ymuno ag **Ie Dros Gymru**. Dyma siec, heb fod yn llai na £10, sy'n daladwy i **Ie Dros Gymru** fel cyfraniad ymuno.

Hoffwn gael gwybodaeth am ddod yn ymgyrchydd brwd dros **ie Dros Gymru** ac/neu mae diddordeb gennyf mewn mynychu Cynhadledd Genedlaethol o fudiadau a phobl sy'n barod i wneud y refferendwm yn un llwyddiannus.

Enw ______________________ Rhif ffôn ______________________

Cyfeiriad ______________________